# COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR Y TY^

**Dyddiad**: 24 Chwefror 2005

**Amser**: 8.30am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadair)

Lorraine Barrett, AC Y Blaid Lafur

Alun Cairns, AC Ceidwadwyr *(ar gyfer eitem 4)*

Mike German, AC Democratiaid Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwyr

Janice Gregory, AC Y Blaid Lafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y T

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Peter Jones, Is-adran y Gyfraith

Adrian Green, Ysgrifennydd Preifat i'r Llywydd

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Brian Davidge, Pennaeth, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T

**Ymddiheuriadau**: Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfydol

Jane Hutt, AC Llafur

1. Sylwadau Agoriadol

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chadarnhaodd ei fod yn cael ei gynnal yn breifat. Croesawodd Alun Cairns, Cadeirydd Is-Grw^p TGCh i'r cyfarfod, hefyd Mike German oedd yn bresennol yn lle Peter Black. Roedd Jane Hutt yn absennol oherwydd salwch.

2. Materion yn codi

2.1 Ymddiheurodd y Cadeirydd am ddechrau cynnar y cyfarfod. Hysbysodd y Pwyllgor na fyddai'n bosibl trefnu cyfarfod ar gyfer 10 Mawrth. Dywedodd y gallai'r Pwyllgor gyfarfod ddwywaith y mis yn y dyfodol ac awgrymodd gynnal y cyfarfodydd naill ai ar brynhawn dydd Llun neu ar ddydd Iau. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried ei awgrym.

3. Graddfeydd Cyflog AMSS HC(2)-03-05(p1)

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i Wayne Cowley gyflwyno'r papur. Fel y cytunwyd yng nghyfarfod 3 Chwefror, dywedodd Wayne Cowley iddo gyfarfod â chynrychiolwyr undebau llafur AMSS ac aelodau'r Grw^p Cyswllt Cyfarpar a Chyfleusterau i drafod nifer o faterion oedd yn codi o argymhellion SSRB.

3.2 Cynigiodd y Pwyllgor gyfres ddiwygiedig o ddisgrifiadau swydd safonol ar gyfer staff cymorth a chynigion ar gyfer graddfeydd cyflog eang. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer trin y Lwfans Arweinydd Plaid.

Lwfans Cyflogi Staff

3.3 Rhoddwyd dau ddewis i'r Aelodau gyda golwg ar y Lwfans Cyflogi Staff:

Dewis 1

Byddai hyn yn caniatáu i'r Aelodau gyflogi staff oddi mewn i'r terfynau ariannol a nodwyd yn yr adroddiad, ar yr amod fod y staff yn cael eu talu ar un o'r graddfeydd a amlinellwyd, gydag unrhyw gynnydd yn dibynnu ar farn yr Aelod. Dyma'r dewis sydd agosaf at y system bresennol, ond yn unol â gofynion y SSRB parthed â graddfeydd cyflog.

Dewis 2

Byddai hyn yn caniatáu i'r Aelodau gyflogi cyfwerth 2.5 o staff amser-llawn heb fod mwy na chyfwerth 1.0 amser-llawn yn derbyn Cyflog Band 1; heb fod mwy na chyfwerth1.0 amser-llawn yn derbyn Cyflog Band 2 a'r gweddill yn derbyn Cyflog Band 3. Byddai gan yr Aelod yr hyblygrwydd i recriwtio'r math o staff sydd orau er ei ofynion/gofynion, ac, ar yr un pryd, byddai'n rhoi i'r staff cymorth lwybr cynnydd eglur yn eu cyflog yn amodol ar berfformiad boddhaol.

Byddai'r dewis yma hefyd yn golygu dyrannu rhywfaint bach o arian ar gyfer costau oriau ychwanegol, hyfforddi, teithio, taliadau bonws ayb.. Roedd ffigyrau'r SSRB yn awgrymu swm o tua £5,000 yr Aelod.

A chaniatáu am drosiant staff, dylai costau'r ddau ddewis fod yn weddol debyg ac yn cydymffurfio â chyfanswm argymhellion y SSRB.

4. Trafododd yr Aelodau rhinweddau'r ddau ddewis. Dyma brif bwyntiau'r drafodaeth:

- Y gwahaniaethau yn y gost rhwng y naill ddewis a'r llall;
- Nifer y staff y gallai'r Aelodau'u cyflogi;
- Graddfeydd talu, cynnydd a staff profiadol;
- Gwerthuso staff a pherfformiad boddhaol;
- Cyfraith cyflogi a staff rhan-amser;
- Hawl trosglwyddo arian.

4. Er bod rhai Aelodau'n mynegi rhywfaint o amheuaeth cytunwyd mai Dewis 2 oedd yn cynnig y dewis gorau ar gyfer Lwfans Cyflogau Staff. Dywedodd Michael German ei fod yn anghytuno â'r dewis hwn a gofynnodd am i hyn gael ei roi yn y cofnodion.

Lwfans Arweinydd Plaid

5. Trafododd yr Aelodau y dewisiadau yn y papur parthed â'r Lwfans Arweinydd Plaid, oedd yn debyg i'r rhai'n ymwneud â'r Lwfans Cyflogau Staff.
6. Gofynnwyd i Dianne Bevan egluro sefyllfa Arweinwyr Plaid fel cyflogwyr gyda golwg ar Ddewis1. Yn amodol ar dderbyn cyngor boddhaol cytunwyd mai Dewis 1 a argymhellid ar gyfer y Lwfans Arweinydd Plaid.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

Argymhellion

8. Cytunodd yr Aelodau ar argymell y canlynol i'r Cynulliad:

(i) Mabwysiadu'r graddfeydd cyflog eang;

(ii) Y Lwfans Cyflogau Staff i'w fynegi yn ôl Dewis 2;

(iii) Dylai fod 5 pwynt yn lle 7 ar y raddfa gynnydd;

(iv) Dylid cynyddu'r Lwfans Arweinydd Plaid yn unol â'r amlinelliad ym mharagraffau 22-25 o'r papur;

(v) Y Lwfans Arweinydd Plaid i'w fynegi yn ôl Dewis 1 uchod;

(vi) Gweithredu'r trefniadau cyfamserol yn unol â'r argymhellion.

9. Cytunodd yr Aelodau i sefydlu grw^p gwaith i adolygu lwfansau'r Dirprwy Weinidogion ac Arweinwyr y Pleidiau. Y Cadeirydd fyddai naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd (y naill neu'r llall neu'r ddau yn cael dod i gyfarfodydd) a byddai'r grw^p yn cynnwys un Aelod o bob Plaid a'r Gweinidog Busnes. Cytunwyd y byddai'r grw^p gwaith yn adrodd i Bwyllgor y T^ ar 21 Ebrill. Dywedodd Mike German ei fod yn enwebu Jenny Randerson i eistedd ar y grw^p gwaith. Cytunodd y pleidiau eraill i drafod eu henwebiadau a'u cyflwyno i Glerc y Pwyllgor mor fuan â phosibl.

4. Teithio Priod HC(2)-03-05(p2)

4.1 Trafododd yr Aelodau y papur a chytuno'u bod yn fodlon argymell y cynigion.

5. Pensiynau Staff Cymorth HC(2)-03-05(p3)

Cytunodd y Pwyllgor argymell taliad marw-mewn-gwasanaeth yn ôl teirgwaith

swm y cyflog a thaliad hefyd mewn achosion o salwch difrifol, y ddau ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Nid oedd y Pwyllgor yn dymuno argymell darparu yswiriant diogelu incwm ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd.

Roedd y Pwyllgor yn argymell cynnwys amod galluogi yn y Dyfarniad diwygiedig ynghylch tâl a lwfansau i ganiatáu unrhyw yswiriant y dymunai Pwyllgor y T ei gyflwyno.

Gofynnwyd i Wayne Cowley adrodd ymhellach i Bwyllgor y T^ gydag argymhellion manylach.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

6. <u>TGCh ar gyfer Aelodau HC(2)-03-05(p4)</u>

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Alun Cairns, Cadair yr Is-grw^p TGCh, i annerch y Pwyllgor ynghylch TGCh i'r Aelodau.

6.2 Dywedodd Alun Cairns fod y prosiect Trawsnewid Merlin yn cynnwys adnewyddu llwyr ar holl TGCh y Cynulliad. Byddai'n darparu cyfrifiaduron newydd i ddefnyddwyr a hefyd fersiwn diweddaraf cymwysiadau meddalwedd busnes poblogaidd. Fodd bynnag bu cryn oedi ar gyflwyno'r newidiadau hyn ac, ar gais yr Is-grw^p TGCh, cafodd y Cadeirydd gyfarfod ag Uwch Swyddog Cyfrifol Prosiect Trawsnewid Merlin i fynegi'i bryder. O ganlyniad i hyn, cytunwyd ar amserlen garlam. Byddai Aelodau Cynulliad a staff cymorth ym Mae Caerdydd yn cael diweddaru'u TGCh dros benwythnos y Pasg.

6.3 Roedd yr is-grw^p TGCh hefyd wedi cytuno na fyddai'r rhestr cymwysiadau 'craidd' a gynhwyswyd fel rhan o'r prosiect adnewyddu wedi diwallu anghenion yr Aelodau i gyd. Un o'r problemau a welwyd oedd na fyddai'r cymwysiadau craidd yn galluogi'r Aelodau i oresgyn yr anawsterau wrth i etholwyr ddefnyddio pecynnau meddalwedd gwahanol.

6.4 Daeth yr is-grw^p TGCh i'r farn hefyd y byddai o fudd aruthrol pe rhoddid i'r Aelodau ddyfais symudol oedd yn caniatáu iddynt reoli e-byst a dyddiaduron y tu allan i'r swyddfa, yn lle'r Cymhorthydd Personol Digidol a roddid i'r Aelodau fel rhan o brosiect Merlin. Gellid cyflwyno'r gwasanaeth gwell yma ond cael ychydig o galedwedd ychwanegol a chodi tâl yn fisol. Byddai adnoddau Merlin yn talu am y gwahaniaeth yn y costau rhwng y CPD y cytunwyd arno o'r blaen a'r "BlackBerry" newydd.

6.5 Cytunodd Pwyllgor y T ar gynigion Alun Cairns ar ran yr Is-grw^p TGCh.

6.6 Mynegodd y Llywydd bryder ynghylch cyn lleied o nodi anghenion Aelodau'r Cynulliad a fu yn y contract. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Llywydd gysylltu â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gofyn iddynt archwilio sut y clustnodwyd anghenion yr Aelodau a'u mynegi.

**Gweithredu: Y Llywydd**

7. Dim TGCh ar 5 a 6 Mawrth HC(2)-03-05(p5)

7.1 Cytunodd yr Aelodau fod systemau TGCh yn cael eu cau dros benwythnos Mawrth 5 a 6, 2005 er mwyn i beirianwyr Merlin wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol.

8. Cael Cerbyd Swyddogol arall yn lle'r un blaenorol HC(2)-03-05(p6)

1. Cytunodd yr Aelodau i gael cerbyd swyddogol arall yn lle'r un blaenorol.

Unrhyw Fater Arall

9 Pwyllgor y T^

9.1 Cytunodd yr Aelodau y dylai Pwyllgor y T barhau i gyfarfod ar foreau Iau gan y byddai hyn yn gyfleus i'r rhan fwyaf o'r Aelodau.

10. Model o Adeilad Newydd y Cynulliad

10.1 Byddai model o Adeilad Newydd y Cynulliad yn cael ei arddangos yn adeilad y Lanfa yn ystod yr wythnos ddilynol.

11. Dim Ysmygu

11.1 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r ystafell ysmygu yn Adeilad y Cynulliad ar gau ddydd Mercher, 9 Mawrth, sef y diwrnod 'Dim Ysmygu',.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 21 Ebrill 2005

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T^**